# Rhaglen Adloniant*

# Gŵyl Bwyd a Diod, Caerffili – Dydd Sadwrn 29 Ebrill

| Time | Act |
|---|---|
| Drwy'r dydd | Arddangosiadau coginio (Ardal 1 & 2) |
| Drwy'r dydd | The Cookalong Clwb |
| Drwy'r dydd | Adar ysglyfaethus |
| Drwy'r dydd | Ffair hwyl |
| Drwy'r dydd | Gweithdai crefft |
| Drwy'r dydd | Stondinau bwyd a diod |
| Drwy'r dydd | Fferm anwesu |
| Drwy'r dydd | Reidiau ar gefn asynnod |
| Drwy'r dydd | Paentio wynebau |
| Drwy'r dydd | Pétanque Cymru |
| 10.00am | Caerphilly Chorus Group (Llwyfan Band Cwrt-y-Castell) |
| 10.00am | Cimwch ar Goesau Bachau (1) |
| 10.15am | 'At Your Service' (1) |
| 10.30am | 'The Hungry Chefs' (1) |
| 10.30am | Gwraig Cacen ar Goesau Bachau (1) |
| 10.45am | 'The Foodies' (1) |
| 11.00am | 'French Waiters' (1) |
| 11.00am | Cogydd Ffrengig ar Goesau Bachau (1) |
| 11.15am | Tommy Ayke y Cogydd Doniol sy'n Jyglo (1) |
| 11.45am | Stondin Pysgod (1) |
| 11.30am | Moch Crand (1) |
| 12.00pm | Cimwch ar Goesau Bachau (2) |
| 12.15pm | 'At Your Service' (2) |
| 12.15pm | 'French Waiters' (2) |
| 12.30pm | Melody Makers (Llwyfan Band Cwrt-y-Castell) |
| 12.30pm | 'The Hungry Chefs' (2) |
| 12.30pm | Gwraig Cacen ar Goesau Bachau (2) |
| 12.45pm | 'The Foodies' (2) |
| 1.00pm | Cogydd Ffrengig ar Goesau Bachau (2) |
| 1.15pm | Tommy Ayke y Cogydd Doniol sy'n Jyglo (2) |
| 1.30pm | 'French Waiters' (3) |
| 1.30pm | Moch Crand (2) |
| 1.45pm | Stondin Pysgod (2) |
| 2.00pm | Cimwch ar Goesau Bachau (3) |
| 2.15pm | 'At Your Service' (3) |
| 2.30pm | Dance Unity (Llwyfan Band Cwrt-y-Castell) |
| 2.30pm | 'The Hungry Chefs' (3) |
| 2.30pm | Gwraig Cacen ar Goesau Bachau (3) |
| 2.45pm | 'The Foodies' (3) |
| 2.45pm | 'French Waiters' (4) |
| 3.00pm | Cogydd Ffrengig ar Goesau Bachau (3) |
| 3.15pm | Tommy Ayke y Cogydd Doniol sy'n Jyglo (3) |
| 3.30pm | Moch Crand (3) |
| 3.45pm | Stondin Pysgod (3) |
| 4.00pm | 'French Waiters' (5) |

***Gall y rhaglen hon newid**

### *Stondinau Bwyd a Diod*



Dros 75 o fasnachwyr bwyd a diod gyda chacennau, bara, losin, cyffug, crystau, sawsiau, siytni, pitsa a llawer mwy o gynnyrch blasus. Mwynhewch gael blas o ddiod neu ddwy gan y nifer fawr o werthwyr gwirodydd, cwrw a seidr. Rhowch gynnig ar y gwahanol gawsiau sydd ar gael a phrynu eich ffefrynnau. Bydd digon o fwyd stryd i demtio'r blasbwyntiau… gwynto'r arogl a gwylio'r bwyd poeth yn cael ei goginio o'ch blaen chi.

**Facebook - @VisitCaerphilly**

### *Marchnad Crefftwyr Caerffili*



Mae Marchnad Crefftwyr Caerffili yn arddangos y busnesau bach Cymreig mwyaf rhyfeddol. Bwyd blasus, celf hyfryd a chrefft hardd. Wedi'u gwneud yng Nghymru gyda chariad.

**Facebook: /caerphillylovelocalartisanmarket**

### *Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs*



Bydd y ffair grefftau fisol wedi'i lleoli islaw Coffi Vista ar bwys y senotaff a bydd yn gartref i tua 35 o grefftwyr. O gelf a chrefft i addurniadau cartref a gemwaith, bydd digonedd o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol yn cael eu harddangos i chi ddod o hyd i'r anrheg anarferol ac unigryw hwnnw.

**Facebook - @CraftyLegsEvents**

### *Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell*



Bydd y farchnad crefft a bwyd fisol wedi'i lleoli yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell, gyferbyn â Chastell Caerffili a bydd yn cynnwys dros 20 stondin gyda chrefftau wedi'u gwneud â llaw a chynnyrch wedi'u coginio gartref gan gynhyrchwyr lleol yn Ne Cymru.

**Facebook: /Castlecourtcraftandfoodmarket**

***Artisan Cooks – Arddangosiadau coginio***




Bydd Clover Hutson yn cael ei chynorthwyo gan y cogyddion gorau i arddangos ryseitiau gwych i chi roi cynnig arnyn nhw gartref! Mae Clover wedi gweithio gyda chleientiaid sy'n cynnwys Aldi, Morrisons, Tim Hortons, Kerrygold, Pilgrims Choice, Mexicana Cheese, Applewood Cheese, KTC, Sea Isle, i enwi dim ond rhai! Bydd arddangosiadau yn digwydd drwy gydol y dydd. Ewch i'r stondin i weld yr amseroedd ar y diwrnod.

Bydd dau faes arddangos ar safle'r digwyddiad, felly bydd digon o ysbrydoliaeth i'r cogyddion addawol yn ein plith!

**Ardal Arddangos 1 - Arddangosfeydd tymhorol**

- 11.30am
- 1.00pm
- 2.30pm
- 3.30pm

**Ardal Dosbarth Meistr 2**

- **11.00am** Gwneud swshi
- **12.15pm** Bara fflat wedi'i wneud â llaw gyda chaws Caerffili wedi'i chwipio, llysiau ffres y gwanwyn ac olew tsili.
- **2.00pm** Gwneud swshi
- **3.00pm** Bara fflat wedi'i wneud â llaw gyda chaws Caerffili wedi'i chwipio, llysiau ffres y gwanwyn ac olew tsili.

**Gwefan: www.artisancooks.co.uk**

***The Cookalong Clwb***




Mae 'The Preservation Society' yn dod â 'The Cookalong Clwb' i Ŵyl Fwyd Caerffili lle gall plant ac oedolion gymryd rhan mewn addurno cwcis a gwneud pwdinau jar jam i fynd adref gyda nhw.

Bydd eu jariau blasusrwydd, sydd wedi ennill sawl gwobr, ar gael hefyd.

**Gwefan: www.thepreservationsociety.co.uk**

**Facebook: /ThePreservationSociety**

### Canolfan Siopa Cwrt y Castell – Adloniant ar y Llwyfan Bandiau



Bydd Llwyfan Band Canolfan Siopa Cwrt-y-Castell yn gartref i amrywiaeth gwych o grwpiau'r gymuned yn ystod y dydd.

**Gwefan: www.castlecourtwales.co.uk / Facebook: /shopcastlecourt**

### Reidiau ar gefn asynnod



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael trwy'r dydd!

**Gwefan:** www.mikesdonkeys.co.uk/

### Reidiau ac atyniadau Ffair hwyl



Bydd nifer fach o reidiau ffair i blant ym maes parcio'r Twyn i ddiddanu'r rhai bach! Gan gynnwys y tŷ hwyl gwyllt, y reid cwpanau cyffrous, y tryciau anferthol a'r trampolinau egnïol!

### Falconry UK



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael lluniau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

**Gwefan: www.falconry-uk.org / Facebook: /FALCONRYUK**

## Gweithdai Crefft Creu a Chymryd



Dewch draw i wneud crefft gwanwynaidd… pili-palod, blodau, gwenyn, cwningod, pryfed ac ŵyn. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl!

## Paentio wynebau

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Tracey's Funky Faces y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

## Cymdeithas Pétanque Cymru




Ymunwch â Chymdeithas Pétanque Cymru am gêm o Pétanque; sef math o fowlio lawnt a gafodd ei ddechrau yn Ffrainc, sydd fel arfer yn cael ei chwarae ar dir garw gan ddefnyddio peli dur. Mae'n gamp llawn hwyl i bob oed!

**Gwefan:** www.welshpetanque.org.uk

## Fferm Anwesu





Fferm anwesu i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid del ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, ŵyn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid annwyl hyn a dysgu am eu harferion.

| | |
|---|---|
| | **Gwefan:** [www.mikesdonkeys.co.uk/](http://www.mikesdonkeys.co.uk/) |
| ***French Waiters***<br><br>Mae'r 'French Waiters' yn angerddol am eu gwaith a'u cwsmeriaid. Maen nhw'n cynnig croeso mawr a chynnes a brwdfrydedd brwd i weini. Wrth i chi ganu'r gloch neu glicio'r bysedd, byddan nhw yno, i geisio â'u holl galon, i ddiwallu eich holl anghenion.<br><br>**Facebook: diggingholestheatre / Gwefan: [www.diggingholes.co.uk](http://www.diggingholes.co.uk)** | ***Cimwch ar Goesau Bachau***<br><br>Fel arfer mae'n nofio yn y môr, ond mae'r cimwch enfawr hwn wedi dianc o'r môr a bydd e'n ceisio pinsio eich traed o uchder mawr! Cyfle gwych i dynnu lluniau! |
| ***Cogydd Ffrengig ar Goesau Bachau***<br><br>Monsieur Doo - Cogydd Ffrengig. Yn ogystal â gwerthu winwns a garlleg, mae Monsieur Doo hefyd yn perfformio fel cogydd. Pob tro ar goesau bachau, weithiau gyda'r<br>beic ar ystudfachau, mae'n rysáit llawn risg! | ***'At Your Service'***<br><br>O gyfyngiadau ei orsaf gweini, bydd yn gorchymyn i'r moron ddawnsio o'ch blaen eich llygaid chi, symud poteli siampên mewn ffordd rydych chi erioed wedi'i gweld, gwneud pethau anhygoel â llwyau. Byddwch chi byth yn |

| | |
|---|---|
| | edrych ar weinydd yn yr un ffordd ar ôl cwrdd â Walter! |
| ***'The Hungry Chefs'***<br><br>Yn fwy na'r disgwyl, mae'r cogyddion barus â sêr Michelin hyn wedi bod yn bwyta mwy na maen nhw wedi bod yn ei weini! Byddwch chi'n chwerthin llond eich bol wrth i'r cymeriadau siriol hyn grwydro'r safle yn arddangos eu comedi coginiol a'u talentau blasus wrth chwilio am eu pryd o fwyd nesaf! | ***The Foodies***<br><br><br>Codwch eich awydd am gomedi gyda champau doniol iawn Toni Super-Mare a'r cogydd digrif o anobeithiol, Mercedes de la Zouche (dan hyfforddiant). Gyda'i gilydd, nhw yw 'A Matter of Taste Catering Co.' Maen nhw'n arddangos eu 'Gastronomie Economie' gan gyfuno dulliau coginio rhad a blasau a fydd yn gwneud i'ch llygaid ddyfrio. Yn siŵr o arwain at chwerthin llond eich bol! |
| ***Tommy Ayke y Cogydd Doniol sy'n Jyglo!***<br><br><br>Dyma gymeriad hwyl iawn sy'n crwydro, y cogydd doniol Tommy Ayke! Mae'n hwyl iawn yn crwydro gyda digonedd o jôcs, ac yn jyglo cyllyll cogyddion! | ***Stondin Pysgod***<br><br><br><br>Bydd y 'Fairly Fresh Fish Co.' yn symud trwy'r dorf gan gynnig lluniaeth traddodiadol stondin bwyd môr. Ond, wrth i chi edrych i lawr ar yr hambwrdd, byddwch chi'n gyflym yn sylweddoli nid yw popeth fel y dylai fod! Mae |

| | |
|---|---|
| | corgimychiaid yn dawnsio ac octopws yn dod yn fyw, wrth ochr cynyrfiadau rhyfedd yn y jar llysywod mewn jeli a smwddi fwyd môr sy'n peri gofid ymhlith pethau eraill i'ch difyrru. Mae gan y cymeriad hwn fwy o linellau na physgotwr macrell. |
| ***Gwraig Cacen ar Goesau Bachau***  Mae'r gacen hon wir yn fath o 'French Fancy'! Wedi'i gwisgo'n hyfryd, bydd y cymeriad hwn yn gwneud i chi chwerthin llond eich bol wrth iddi fod pen ac ysgwyddau yn uwch na'ch pen chi! Cyfle gwych i dynnu lluniau! | ***Moch Crand***  Mae'r moch cyfoethog, difyr hyn yn sbort doniol iawn. Bydden nhw'n eich swyno a'ch diddanu chi wrth iddyn nhw drotian o gwmpas. Yn llawn hwyl ac yn awyddus i helpu gwthio bygis, cario bagiau, a phob amser yn llawn edmygedd am unrhyw eitemau o fwyd neu faux pas ffasiwn, dydy'r moch bach hyn ddim yn hoffi colli allan. |

*(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg ei chynhyrchu.)*